



Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 224

Pris £1

Mis Gorffennaf 2020



Gŵyl Ffodau 2020



Merched y Wawr Tudalen 10

Mam Anhygoel

Gwelwyd yr eitem yma ar Facebook yn ddiweddar. Yr awdur yw Roz Richards, un o'n darllenwyr sydd hefyd wedi bod yn destun erthygl yn Cwmni. Teimlwn fod yr erthygl yn briodol iawn yn yr hinsawdd wleidyddol sydd ohoni ar hyn o bryd.



Nyrs Daphne Richards

Mewnfudodd fy mam, Daphne Richards, i'r Deyrnas Gyfunol pan oedd yn 17 mlwydd oed, nôl yn 1963 fel rhan o do'r "Windrush", lle gwahoddwyd trigolion Jamaica i fyw a gweithio fel rhan o'r Gymanwlad. Breuddwyd mam oedd dod yn Nyrs Gofrestredig ar gyfer salwch meddwl (RMN) gyda'r GIG. Wedi astudio yn 1967, safodd mam arholiad i ddod yn RMN dim ond i gael gwybod gan y metron, wrth iddi roi ei phapurau i mewn: "Dwy ddim yn gwybod beth ydych chi'n gwneud yma, chi ddim wedi pasio."

Nawr, gwyddai mam ei bod yn ddeallus ac yn gwybod y dylai fod wedi pasio o ystyried y gwaith yr oedd wedi'i wneud. Ond ni phasiodd yr un nyrs groenddu i fod yn RMN. Gwnaed hi'n amhosib iddynt basio. Roedd pob nyrs ddu yn gweithio fel SEN (State Enrolled Nurse), sef dirprwy nyrsys. Cawsant eu ffrwyno oherwydd lliw eu croen.

Yn 1980 enillodd mam gymwysterau RMN pan, o'r diwedd, cafodd hi gyfle i sefyll yr arholiad. Dywedodd mam y gallai fod wedi cefnu ar y cyfan gan roi'r gorau i'w breuddwyd. Ond cadwodd ei chryfder mewnol a'i dyfalbarhad a'i than ynghyn, ni roddodd y ffidil yn y to dan unrhyw amgylchiadau.

Bellach mae wedi ymddeol, wedi rhoi hanner can mlynedd anhygoel i'r GIG!!!

Rydym mor falch o'n mam. Adlewyrchir ei chryfder a'i dewrder ynom ni (Roz a Lara, efeilliaid Daphne). Rydym yn wirioneddol wedi'n bendithio gan y gorau. Y fath fenyw groenddu anghredadwy, hardd yw hi.

Wynebu Ein Gorffennol

Mae harddwch ac urddas wyneb Daphne Richards ar yr erthygl uchod yn ein herio. Mae ei llygaid yn llawn amynedd a phoen, a gellir deall hynny o ddarllen ei hanes. Fe brofodd hi sarhad a dirmyg oherwydd lliw ei chroen yn unig. Ni all unrhyw wlad ystyried ei hun yn wâr os yw pobl yn cael eu trin yn y fath fodd. Fe orchfygodd yr holl rwystrau, ennill y cymhwyster yr oedd yn ei haeddu, a magu plant sydd, yn amlwg, yn ei charu ac yn ymfalchïo ynddi.

Ond mae'r tristwch yn ei llygaid yn ein herio hefyd i gofio cymaint o'n bywyd cysurus ni heddiw sydd wedi ei seilio ar ddioddefaint hynafiaid Mrs Richards. Ar erchyllterau'r fasnach mewn caethweision yr adeiladwyd cyfoeth teulu Pennant yn y gogledd. Bu Thomas Williams, perchennog gwaith copr Mynydd Parys, Ynys Môn, yn deisebu'r Senedd er mwyn diogelu'r fasnach. Yr adeg honno ddefnyddiai holl gynnyrch ei weithfeydd ym Mhenclawdd i brynu caethweision.

Yn agosach i gartref, roedd gan haearnfeistri blaenau'r cymoedd hefyd ddiddordeb yn y fasnach - ceisiodd Richard Crawshay brynu planhigfa yn Jamaica - a defnyddiwyd llawer o gynnyrch eu ffwrnesi ar y llongau a hwyliodd o Gaerdydd, Casnewydd a Chas-gwent ar y "fordaith drionglog" o Gymru i'r Affrig gyda nwyddau (copr yn aml iawn) i brynu caethweision, eu cludo i'r Amerig a'u gwerthu er mwyn prynu siwgr i fynd adre i gwrdd â'r galw cynyddol am bethau melys. Byddai modd i fi restru lluo o Gymry eraill, bonedd a gwrêng, oedd yn elwa ar y fasnach erchyll hon mewn pobl.

Cafodd y fasnach mewn caethweision sylw yn ddiweddar oherwydd yr ymgyrch i ddymchwel cofeb William Colston ym Mryste, a'r sylw a roed wedyn i gofebau dynion eraill a elwodd o'r fasnach greulon honno. Un o'r rheiny oedd Syr Thomas Picton: mae cerflun ohono yn sefyll yng nghwmni Dewi Sant, Hywel Dda a

Wynebu Ein Gorffennol (parhad)

Phantycelyn yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd. Ffasiwn y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed oedd codi cerfluniau i anrhydeddu eu harwyr, ac mae'r dewis o bobl i'w dathlu yn y dull hwn yn adlewyrchu gwerthoedd yr oes. Mae'n hen bryd i ni ail-edrych ar y bobl a anrhydeddwyd a dewis gwell ffordd o gofio'n gorffennol - a'i wynebu.

Man dechrau efallai fyddai dathlu safiad y rhai fu'n dadlau yn erbyn creulonderau'r fasnach caethweision. Mae un ohonynt yn enwog ymhlith Cymry Cymraeg, ond hyd y gwn i does dim cerflun ohono yn unman. Roedd Iolo Morganwg yn gwrthwynebu'r fasnach caethwasiaeth i'r carn, ac yn datgan hynny ar goedd, er bod tri o'i frodyr wedi elwa ohoni. Cofeb fach sy'n nodi safle siop Iolo yn y Bontfaen, yr unig siop yng Nghymru na fyddai'n gwerthu siwgr o India'r Gorllewin, am fod ôl gwaed y caethweision arno yn ei farn ef.

Un o gyfoedion Iolo oedd hefyd yn sefyll yn gadarn yn erbyn caethwasiaeth, ac sydd heb ei anrhydeddu â cherflun, yw Morgan John Rhys, mab fferm y Graddfa yn ein cwm ni. Daeth yn weinidog gyda'r Bedyddwyr, a bu'n mynychu'r Hen Dŷ Cwrdd yn Hengoed cyn cael ei ordeinio a dechrau teithio'r byd. Ysgrifennodd yn helaeth gan annog cydraddoldeb a brawdgarwch, a beirniadu'r fasnach erchyll a sicrhodd gyflenwad o siwgr i Gymru :

“Pan fo’ch yn gweled *Suwgr*,
Oh! Cofiwch fel y cawd,
O lafur annaturiol
Cystuddiol caethion tlawd:
Os yw yn felus gennyh,
Bu’n chwerw dost i ni:
Yn sydyn yr arswydech
Pe clywech chwi ein cri...”

O Jamaica, un o ynysoedd y siwgr, y daeth Daphne Richards...

Dr Elin Jones

Colofn Y Dysgwyr

gan Ann Lewis

Helo Bawb. Gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac mewn hwyliau da yn y cyfnod anodd yma. Gobeithio erbyn hyn bod golau ar ben y twnel ac amser gwell i ddod.

Bydd pobl yn siarad am Covid-19 am flynyddoedd dw i'n siwr ac mae llawer o eiriau ac ymadroddion newydd wedi ymddangos yn ystod y misoedd diwethaf. Dyma rai ohonyn nhw yn Gymraeg :

lockdown : cyfyngiadau symud

pandemic : pandemig

self-isolation : hunanynysu

social distancing : cadw pellter cymdeithasol

virus : feirws

temperature : gwres

cough : peswch

losing the sense of taste : colli synnwyr blas

losing the sense of smell : colli synnwyr arogl

statistics : ystadegau

vaccine : brechiad

daily briefing : datganiad dyddiol

Cadwch yn ddiogel bawb!

mewn hwyliau da : in good spirits

erbyn hyn : by now

ymadroddion : phrases

ymddangos : to appear

cadwch yn ddiogel bawb : stay safe everyone

Gair Groeg yw 'agape'. Fe ddywedwyd am yr iaith honno mai dyma'r iaith gyfoethocaf yn y byd am fod un gair yn cyfleu sawl ystyr gwahanol. 'Cariad' yw ystyr 'agape'. Ond pa fath o gariad?

Mae cariad rhwng bachgen a merch; cariad teuluol; cariad rhywiol; cariad corfforol; cariad meddyliol ... a chariad, fel agape, sy'n ein galluogi i garu gelynion. Cariad Cristnogol yw hwnnw.

Ddechrau'r ganrif yma roedd 'na gronfa ariannol gan yr Annibynwyr o'r enw 'Agape'. Bwriad y gronfa oedd helpu capeli i genhadu yn y gymuned. Efallai y bydd rhai o aelodau hŷn Bethel yn cofio i ni wneud cais am help gan y gronfa honno. Gan fod nifer o stadau tai anferth yn cael eu codi yn nhref Caerffili, a theuluoedd newydd yn symud i fyw i'r ardal, un o gyfrifoldebau Cylch Ymweld Bethel oedd ymweld â'r stadau newydd a gwahodd y teuluoedd i ymuno ym mywyd Cristnogol y dref.

Bu'r cais yn llwyddiannus. Paratowyd taflen liwgar, ddeniadol, i'w dosbarthu i ddeiliaid y stadau tai. Ar y daflen roedd manylion perthnasol am holl addoldai y dref (lleoliad y gwahanol eglwysi a chapeli, amseroedd yr oedfaon, rhifau ffôn ac ati) a'r cyfan wedi ei argraffu yn broffesiynol.

Y gwaith pennaf at y gwanwyn a'r haf hwnnw oedd dosbarthu'r taflenni. Fe dargedwyd Stad Castell Maen. Y bwriad oedd cael nifer o'r aelodau ifanc i gydweithio gydag aelodau hŷn i fynd o ddrws i ddrws. Nid gwrthio taflenni trwy dwll llythyrau oedd yr amcan (*junk mail* yw hynny). Yr her i ni oedd cyfarch y sawl a ddeuai i'r drws a chynnig taflen liwgar i'w chadw, gan esbonio'r cynnwys ac ateb unrhyw gwestiwn.

Wedi'r dosbarthu, roedd angen asesu'r ymateb. Sut dderbyniad gafwyd?

Roedd hi'n ymgyrch fentrus. Cnocio drysau heb wybod dim am y teuluoedd oedd yn byw yno na sut groeso a gaem. Roedden ni wedi rhagdybio mai pobol yn symud i Gaerffili o ardaloedd cyfagos fyddai'r deiliaid. Yn amlach na pheidio, pobol yn symud o un rhan o'r dref i ran arall oedden nhw.

At ei gilydd roedd yr ymateb ar stepen y drws yn foneddigaidd. Nid ymhob tŷ chwaith. Ond mae modd troi hynny o fantais. Dwi'n cofio'r annwyl Marilyn Rees a minnau yn ymweld ag un tŷ lle nad oedd fawr o groeso. Roedd y dyn agorodd y drws yn gwisgo crys tîm pêl-droed Lerpwl. Cawsom wybod ganddo, yn fygythiol, ble i stwffio'n taflen! Gan mai o Anfield, cartref tîm pêl-droed Lerpwl, y daeth y sylwebaeth gyntaf erioed ar gêm ryngwladol (a minnau'n sylwebu) dywedais hynny wrtho.

Newidiodd ei dôn ar unwaith a chawsom sgwrs ddifyr am gewri Anfield – er mawr ddifyrrwch i Marilyn!

Wedi'r cyfan, caru gelynion yw ystyr 'agape.' *Up the Swans!*

R Alun Evans

Cwcwôd Rhisga

Amser maith yn ôl, yn ôl y chwedl, roedd dyn a'i fab ifanc yn byw yn Rhisga, a oedd, y pryd hynny, yn bentref bach. Un bore heulog yn gynnar yn y gwanwyn, clywodd y bachgen bach aderyn yn canu yn yr ardd, roedd ei gân mor felys cafodd ei swyno ganddo. Safodd yno yn methu symud, yn gwrando ar ei gân hyfryd. Yna rhedodd i mewn i'r tŷ gan ddweud wrth ei dad i ddod mas i wrando ar gân hyfryd yr aderyn. Gofynnodd y bachgen i'w dad a oedd hi'n bosibl cadw yr aderyn yn eu gardd. Esboniodd y tad wrth ei fab taw cwcw oedd yr aderyn. Roedd y tad yn meddwl cymaint o'i fab ifanc nad oedd yn gallu dweud na, felly yn y diwedd cytunodd drio dal y gwcw.

Dywedodd y tad wrth ei fab, "Yr hyn y byddwn ni'n ei wneud ydy aros i'r aderyn ddod yn ôl ac yna byddwn yn codi ffens o amgylch yr ardd i'w gadw i mewn". Dechreuon nhw weithio yn syth, gan baratoi popeth i fod yn barod ar gyfer dychweliad yr aderyn. Roedd popeth yn barod 'da nhw, dim ond yr aderyn oedd ei angen nawr. Arhoson nhw'n amyneddgar.

Ac yna, yn gynnar un bore braf roedd y gwcw yn ôl yn canu'n felys yn yr ardd. Roedd y bachgen mor gyffrous nes iddo redeg at ei dad gan ddweud, "Dewch yn gyflym, mae'r gwcw'n ôl". Rhuthron nhw mas i'r ardd i ddechrau codi'r ffens i gadw'r aderyn yn yr ardd. Gweithion nhw drwy'r dydd, ac ar ôl cwpla, safon nhw yna'n edmygu eu gwaith, a tra oedden nhw'n sefyll yno'n edmygu eu gwaith, stopiodd yr aderyn ganu a hedfanodd i ffwrdd dros y ffens i'r coed. Dechreuodd y bachgen grio'n chwerw a dywedodd ei dad wrtho, "Paid â phoeni, y tro nesaf daw yr aderyn yn ôl, byddwn ni'n codi'r ffens yn uwch." Dechreuon nhw unwaith eto baratoi'r deunydd a oedd ei angen arnynt i godi'r ffens yn uwch.

Er mawr syndod iddynt y bore nesaf, dyma'r aderyn yn ôl yn eu gardd yn canu'n uchel, rhuthron nhw mas a dechrau gweithio mor gyflym ac y gallent, tan yn y diwedd roedden nhw wedi cwpla. Roedden nhw wedi codi'r ffens gryn dipyn. Penderfynon nhw eistedd i lawr yn yr ardd, ymlacio a gwrando ar yr aderyn, a mwynhau ei gân, ond wrth gwrs ar ôl i'r aderyn orffen canu, beth wnaeth e? Hedfan i fwrdd eto.

Digwyddodd hyn sawl gwaith. Aeth y ffens yn uwch, a phob tro, hedfanodd yr aderyn drosti, tan yn y diwedd sylweddolodd y tad ei bod yn amhosibl cadw'r aderyn yn yr ardd.

Dechreuodd un o hen gymeriadau'r pentref a oedd yn cerdded heibio chwerthin arnynt, "Pam yn y byd y byddech chi'n ceisio cadw 'r gwcw yn yr ardd pan mae dau gwcw yno'n barod?" meddai fe.

A dyna reswm pam mae pobl Rhisga yn cael eu galw,-- Cwcwôd Rhisga. A llysenw Rhisga RFC ydy "Y Cwcwôd".

Malcolm David

Ar ddarllen Dan y Wenallt am y tro cyntaf

Gyda Chlwb Drama Cwmni Cwm Ni



Rwy'n cofio darllen '*On First Looking into Chapman's Homer*' gan John Keats tra'n yr ysgol ers talwm a meddwl: 'Mae hwnna'n swnio'n yfflon o dda ond be gythgam ddwedodd o, dudwch?' Mi es i'n ôl at y soned enwog eto cyn ysgrifennu'r erthygl hon; chi'n cofio - '*Much have I travell'd in the realms of gold*' ac ati, a rhaid i mi gyfaddef nad ydw i fawr callach heddiw. Yn fachgen ysgol mi ges i fwy o fudd allan o ddarllen parodi o'r soned gan Peter Maloney, Sgowsar o fri ar y pryd a ysgrifennodd: *On First Looking into the Liverpool Echo*. Rhaid i mi gyfaddef hefyd i mi gael yr un teimlad wrth ddarllen 'Dan y Wenallt', trosiad T. James Jones o 'Under Milk Wood' Dylan Thomas gyda'r clwb drama.

Efallai fod y ffaith ein bod ni'n darllen y ddrama ar Zoom ar y we yn ystod ein neilltuo gorfodol wedi bod yn faen tramgwydd i fy mwynhad. Efallai mai'r rheswm oedd bod yn rhaid i chi ddarllen 'rhwng' cymaint o linellau i chi allu deall y synnwyr go iawn yng ngwaith Dylan Thomas. Gan fy mod i'n Gog pybyr, roedd defnydd y cyfieithydd o dafodiaith Sir Benfro'r cyfnod yn broblem, ac yn atgyfodi toreth o eiriau na chlywes i erioed amdany'n nhw, a'u defnyddio nhw yn aml yn yr un frawddeg. Blymin ec! Mae angen thesawrws o dafodiaith dywyllaf yr Hwntw wrth law wrth ddarllen. Diolch i'r drefn am rai perfformiadau clodwiw fel un Annette Dutt oedd rywsut yn gallu cordeddu ei thafod rownd dirgel gytseiniaid iaith Llareggub i actio rhan y llefarydd. Cofiwch chi, roedd ganddi hi fantais gan ei bod hi'n dod o Bancffosfelen a does neb yn deall beth maen nhw'n ei ddweud yno ychwaith!

Y pwynt efallai dw i'n drio ei wneud ydy, ein bod ni Gymry'n hoff iawn o lenyddiaeth sy'n swnio'n dda ond sy ddim bob amser yn gwneud llawer o sens. Does ond rhaid i chi edrych ar gywyddau eisteddfodol sy'n aml yn dweud diawl o ddim ond maen nhw'n swnio'n blymin grêt gyda'r cytseiniaid yn clecio dros y lle i gyd a'r odlau yn eich swyno. Ond be ddwedodd o?... Wnim. Dw i'n gwybod bod yr hen Dylan yn dweud rhywbeth ond dw i dal ddim yn siŵr beth. Mi fydd rhaid i mi fynd yn ôl i edrych.

Un cwestiwn bach arall (*seriously* academiaidd rŵan); ydy cyfieithiad o rywbeth fel hyn yn gweithio? Ddim am ei fod o'n gyfieithiad sâl ond am fod y persbectif yn rong rywsut. Wrth ysgrifennu roedd Dylan yn peintio llun o gymdeithas Gymreig o'r tu allan ar gyfer cynulleidfa y tu allan ac mae elfen o ddychan yn perthyn i'r darlun. Dydy o ddim yn gweithio'r un fath pan mae'r peth yn y Gymraeg ac yn dod o'r tu mewn ar ein cyfer ni.

I gloi; roedden ni'n aml yn darllen drama Shakespeare yn yr ysgol ers talwm, pan oedd disgyblion yn cymryd rhannau cymeriadau rownd y dosbarth. Roedd y tensiwn yn codi fel y dynesai'r tro i mi beroraethu'n Shakesperaidd gyda'r iaith astrus. Roedd y teimlad yn debyg gyda 'Dan y Wenallt' ar Zoom. (*Y Fflistiad*)

Pobol y Cwm

Beth sydd wedi digwydd i fyd Sebon?

Roedd Allan Cook yn gynhyrchydd/gyfarwyddwr ar Bobol y Cwm am chwarter canrif yn ogystal â gweithio ar sebonau fel Crossroads a Casualty.

Wrth edrych ar rai o'r cyfresi sebon yng nghanol mis Mehefin 2020 roedd yn glir fod y Corona firws heb gyrraedd eu byd nhw. Roedd pobol yn cael coffi yn y *café* a phlant yn mynd i'r ysgol yn Rownd a Rownd, roedd 'na brotest yn Stryd Fawr Cwmderi, y *café* a'r dafarn ar agor a dim sôn am gadw pellter. Roedd y dafarn ar agor yn Emmerdale a'r Rovers Return ar agor yn Coronation Street, heb sôn am ymweliad gan yr actor William Roache (Ken Barlowe) sydd ymhell yn ei wythdegau, a dim son am y firws.

Y rheswm am hyn ydi fod pob rhaglen sebon yn cael ei recordio chwech i wyth wythnos cyn y darlledu a chaewyd pob stiwdio deledu yn syth wedi i'r firws ymddangos. Roedd 'na ymdrech i wneud i beth oedd gyda nhw'n barod fynd ymhellach, drwy dorri'r nifer o benodau oedd yn cael eu darlledu bob wythnos. Coronation Street i dair a Phobol y Cwm i ddwy. Ond mae'n broblemau. Roedd y Pasg a'r Sulgwyn yn ystod yr wythnosau cynnar pan doedd neb yn recordio. Dw i ddim yn gwyllo unrhyw sebon yn ddigon cyson i weld shwd ddaethon nhw dros y problem.



Erbyn hyn mae'r Archers wedi bod yn recordio am rai wythnosau ac Emmerdale a Coronation Street newydd ailgychwyn o dan amodau llym iawn, dw i'n amau a welwn ni William Roache am rai misoedd; ond dim sôn am ailgychwyn recordio Pobol y Cwm neu Rownd a Rownd.

Efallai doeddech chi ddim yn sylwi fod sebonau yn cael eu recordio ymhell o flaen llaw. Maen nhw'n glyfar iawn yn gwneud i bethau edrych yn amserol, y dillad iawn i'r tymor ac yn y blaen. Weithiau maen nhw'n cael eu dal mas. Rwy'n cofio, tua deng mlynedd yn ôl, gaeaf mwyn iawn ond eira ar ddechrau mis Mawrth. Mae hynny'n hollol dderbyniol ond roedd eira yn Albert Square,

amser y Pasg. Bydd yn ddiddorol gweld shwd mae'r storïwyr yn ysgrifennu'r firws i mewn i'r sebonau.

Am gyfnod roedd Pobol y Cwm yn unigryw. Am ryw ddeng mlynedd o fynd yn ddyddiol yn 1988, roedd yn cael ei ddarlledu ar y diwrnod y cai ei recordio. Roedd 'na fanteision anhygoel o recordio ar y diwrnod darlledu. Roedd yn bosib i'r bobol oedd yn byw yn Sir Gâr ac ardal Abertawe weld eu papur hwyrol - The South Wales Evening Post - ar y teledu cyn cael yr un rhifyn ar eu stepen drws.

Cofier am Harri Parri yn beirniadu'r Gyllideb o fewn oriau i'r Canghellor roi ceiniog ar beint o gwrw ond, wrth gwrs, byddai Pobol y Cwm wedi diflannu o'n sgriniau'r eiliad tarodd y feirws.

Allan Cook



Yn rhifyn mis Mehefin “Cwmni” rhoddwyd addewid o hanes sefydlu Ysgol Gymraeg Caerffili yn yr adeilad yn Stryd Parc-y-Felin. Fe gofiwch sefydlu'r dosbarth cyntaf yno yn 1961 ac wrth i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg gynyddu, symudwyd y plant i fyny i Senghennydd pan ddaeth yr adeiladau hynny yn wag. Cadwyd at yr enw “Ysgol Gymraeg Caerffili” yno a'i newid yn Ysgol Ifor Bach ond pan sefydlwyd ysgol Gymraeg yng Nghaerffili yn 1970. Mae hanes o frwydro'n galed dros gael Ysgol Gymraeg newydd ond synnwyd yr ymgyrchwyr gan mor hawdd y daeth y penderfyniad i ddefnyddio'r adeilad yn Stryd Parc-y-Felin at ddefnydd y sector cyfrwng Cymraeg.

Rhaid mynd yn ôl i ddiwedd yr Ail Ryfel Byd i ddechrau hanes sefydlu'r ail Ysgol Gymraeg Caerffili.

Wedi'r rhyfel etholwyd Llywodraeth Lafur gyda Clem Attlee yn Brif Weinidog ac roedd hon yn llywodraeth radical. Hon oedd y llywodraeth a roddodd i ni Wasanaeth Iechyd Genedlaethol Aneurin Bevan; cynllun yswiriant cenedlaethol James Griffiths. Dyma hefyd adeg gwladoli'r diwydiant glo, y gweithfeydd dur a ffurfio'r Rheilffyrdd Prydeinig ac yn y blaen.



Syniad llai enwog oedd adeiladu tai na fyddai ar gael ar rent nac i'w prynu, ond rhywbeth rhwng y ddau begwn. Mae'n debyg bod nifer o wledydd eraill yn cynnig cyfuniad o'r ddwy opsiwn a daeth hyn i fodolaeth ym Mhrydain drwy ffurfio Cymdeithasau Tai lle byddai'r deiliaid yn talu rhent ond y rhent yn cyfrannu tuag at eu gallu i brynu eu cartrefi. Mae'r llety a ddarparir gan y Cymdeithasau hyn nawr yn bell iawn o'r weledigaeth wreiddiol!

Pan ddaeth Llafur yn ôl i rym yn 1964 aeth ein Haelod Seneddol Llafur, Ness Edwards, i'r afael â'r syniad hwn ynghyd â dau frawd oedd yn rhan o lywodraeth Harold Wilson: John a Sam Silkin. Bu tad y brodyr Silkin yn aelod o lywodraeth Clem Attlee yn ystod y cyfnod 1945 - 1951. Ond wedi 1964 y ffurfiwyd Cymdeithas Dai yng Nghaerffili, sef Cymdeithas Dai Pontywindy.

Darparwyd cynlluniau i adeiladu cannoedd ar gannoedd o dai oedd i ymestyn o Mill Road draw hyd at dafarn y Pontywindy gan, yn anffodus, ddymchwel hen ffermdy hanesyddol Pontywindy a safai yn agos i lle mae mynedfa maes parcio Asda erbyn hyn. Ond mae'n debyg nad oedd y cynllunwyr hyn yn ymwybodol fod yr awdurdodau lleol hwythau â chynlluniau uchelgeisiol ar gyfer darparu tai cyhoeddus. Roedd Cyngor Caerffili yn mynd ati i godi Parc Lansbury tra roedd Cyngor Bedwas a Machen â chynlluniau tebyg i godi ystad Graig y Rhacca.

Gwelai Cyngor Sir Morgannwg y byddai angen darparu ysgolion ychwanegol ar gyfer y stadau hyn gan gynnwys ystad Cymdeithas Pontywindy. O weld y nifer o dai oedd yn y cynlluniau, penderfynodd y Cyngor godi nid un, ond dwy ysgol ar ystad a adwaenwn bellach fel Churchill Park, Ond wedi codi dwy ysgol, Ysgol Iau ac Ysgol Fabanod Plas-y-Felin, ataliwyd adeiladu tai gan ddarparu tua hanner y nifer arfaethedig.

Ydych chi erioed wedi rhyfeddu ar faint y maes parcio sydd ar gyfer archfarchnad Asda? Un rheswm, wrth gwrs yw mai cyfleustra a ddarparwyd ar gyfer Carrefour yn 1972 yw hyn. Ond tir ydyw a neilltuwyd yn y lle cyntaf ar gyfer adeiladu Churchill Park ehangach.

Roedd yr Awdurdod Addysg nawr mewn cyfyng gyngor. Doedd dim digon o blant i lenwi'r ddwy ysgol newydd. A'r ateb? Wel cau'r ysgol leol yn Stryd Parc-y-felin a throsglwyddo'r plant i ysgolion newydd Plas-y-Felin. A beth oedd i ddigwydd i'r hen ysgol? Wel, trwy lwc, roedd digon o alw am fwy o le ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a thrwy drosglwyddo plant o Senghennydd i Barc-y-Felin llwyddwyd i osgoi embaras mawr i'r Cyngor Sir!

Gorfodi Saesneg ar ein plant, a beth am addysgu Hanes yn ein hysgolion?

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn ymgyrchu i ddileu gorfodi Saesneg o Fesur Seneddol y Cwricwlwm gan y byddai'n fygythiad enfawr i addysg Gymraeg ac yn ein gwahodd i ddefnyddio eu ffurflen i anfon neges at ein haelodau lleol o Senedd Cymru. Mae'r ffurflen hon ar waelod eu llythyr at Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg:

<https://cymdeithas.cymru/ebost/bil-y-cwricwlwm-achub-addysg-gymraeg>

Estyn Dysgu Dros y Môr

Clive Williams

"Hola Clive, no entiendo gales, soy descendiente. Te saludo."

"Mi materia pendiente es conocer Gales la tierra de mis antepasados."

Dyma'r geiriau cyntaf a ddywedodd fy ffrind newydd ar Facebook wrthyf ... a gyda fy niffyg arbenigedd cywilyddus yn *español* ... roeddwn yn gyflym i alw ar gymorth 'Google Translate' ... a ddywedodd wrthyf fod fy 'amiga' yn dweud ...

"Helo Clive, nid wyf yn deall Cymru (Cymraeg)*, rwy'n ddisgynydd. Rwy'n eich cyfarch chi."

"Fy mater sydd i ddod** yw adnabod Cymru gwlad fy hynafiaid."

[*Mae Google Translate wedi cael trafferth gyda "Gales" – Cymru a "gales" – Cymraeg;** *materia pendiente* yw mater sy wedi ei ddechrau ond heb ei gyflawni – *Cynorthwy-ydd Cwmni*]

Am gyfnod byr fe wnaethon ni gyfnewid newyddion ar Facebook Messenger yn Sbaeneg... gyda chymorth Google Translate i'w groesawu! Ac yna, heb unrhyw anogaeth gennyf i, trodd iaith ein cyfathrebiadau at y Gymraeg... gyda chymorth Google Translate i'w groesawu!

Mae Rosa Ana Davies yn hanu o Drelew yn y Wladfa, ac ers y deng mlynedd ar hugain ddiwethaf mae wedi ymgartrefu yn ninas Carcarañá ryw tri chant a hanner o gilometrau i'r gogledd-orllewin o Buenos Aires. Mae hi'n un o ddisgynyddion y gwladfawyr Cymreig cynnar ... aeth ei hen dad-cu allan i Batagonia ym 1875 ar y 'Vesta'. Ond mae calon Rosa am byth yn ei hannwyl Batagonia lle mae'n cadw cysylltiadau agos gyda'i pherthnasau a'i ffrindiau niferus, y mae rhai ohonynt yn chwarae rolau amlwg yn y gymuned yno. Yn eu plith mae ei chyfnither Dilys Evans o Borth Madryn, sy'n weithgar gydag Eisteddfod Mimosa, Porth Madrin. Yna, mae ei ffrind ers dyddiau ysgol Ariel Grant Hughes o Drelew, yn brysur gyda'r orsaf radio leol Desde La Chacra Radio (Radio o'r Ransh). Bellach wedi ymddeol, ac ar adeg mewn bywyd pan mae llawer yn eithaf hapus i gymryd pethau'n dawel, mae Rosa gydag ysbryd mawr wedi ymgymryd â'r her o ddysgu siarad Cymraeg ... a gollwyd iddi hi a llawer o genhedlaeth ei phlentyndod. Roedd hi'n angerddol i ddweud, er na all siarad â mi yn Gymraeg eto ... "Rydyn ni'n rhannu'r un gwaed ... a byddaf yn siarad â chi yn Gymraeg!"

Felly, rydw i bellach yn hapus ac yn brysur yn helpu Rosa i gyrraedd ei nod o ddod yn Gymraeg Gymraeg Patagonia. Ddim yn dasg hawdd gyda bron i saith mil o filltiroedd o Gefnfor yr Iwerydd rhyngom! Ond lle mae'na ewyllys, mae'na ffordd! Diolch i ryfeddodau technoleg fodern... y Rhyngryd... Facebook Messenger a Video

Messenger... Google Translate... Google gmail e-bost... Microsoft Office Word... a YouTube... rydyn ni nawr yn y fusnes o ddysgu. Ond ar y dechrau, roedd angen i mi wisgo fy 'nghap meddwl' er mwyn dyfeisio cynllun addysgu a fyddai'n gweithio... ac a fyddai'n ddwrglos! Ond lle mae'na ewyllys mae'na ffordd!



Rhaid imi ddweud bod Rosa'n fyfyrwraig ragorol sy'n gweithio'n ddiwyd yn ei sesiynau dysgu. Mae hi'n ddarbodus iawn yn ei hymroddiad o amser a sylw i'w hastudiaethau er mwyn peidio â chael ei llethu. Ac i fywiogi ei dysgu, rwy'n creu dargyfeiriadau, diddordeb ac adloniant... gyda fideos YouTube o ganu Cymraeg... gwybodaeth o Wikipedia... naratifau hanesyddol... ffotograffau a phytiau o newyddion... ag ati...

Mae brwdfrydedd di-rwysr Rosa dros ddysgu'r Hen iaith wedi profi yn heintus. Nid hi bellach yw'r unig ferch yn yr ystafell ddosbarth! Erbyn hyn mae ei chyfnither Mabel Jones a'i gŵr yn Tierra del Fuego (ar ben draw'r byd, fel y mae Rosa yn ei ddisgrifio), a'i chwaer 'fach', Olga Davies yn Buenos Aires, wedi ymuno â hi... gyda Rosa nawr yn chwarae ei rôl fel fy 'athrawes ddisgybl' yn yr Ariannin! Ac ar ben hyn, mae Rosa bellach yn defnyddio ei sgiliau ieithyddol newydd gyda'i theulu a'i ffrindiau Cymraeg o Ddyffryn Camwy i Gwm Hyfryd a thu hwnt.

Daw fy 'ffioedd dysgu' ar ffurf dod i ddysgu am Batagonia o wybodaeth fanwl Rosa am ei mam-wlad ... math o 'gyfnewid' am y pethau rwy'n eu hanfon ati. A'r bonws ychwanegol i mi yw bod fy Sbaeneg yn dod ymlaen yn braf...

"Gracias a mis amigos por leer mi historia... espero que la hayan disfrutado... ¡pero aún no está terminada!"

Er mwyn arbed i chi glicio ar Google Translate ...

"Diolch i fy ffrindiau am ddarllen fy stori ... gobeithio eich bod wedi mwynhau ... ond nid yw wedi gorffen eto!"

Mynd ar goll yn Ystrad Mynach

Do, wir, es i ar goll unwaith yn Ystrad Mynach. Eironig braidd oherwydd bum yn weinidog yno rai blynyddoedd yn ddiweddarach o 1984 i 1990. Rwy'n dal i gofio enwau rhai o'r strydoedd cyfagos i gapel Bryn Seion – Stryd Lisburn, Commercial, Central, Lewis, Bedwlwyn a Phenallta i enwi hanner dwsin.

Bore Sul cyntaf mis Medi 1977 oedd hi ac roedd gen i gyhoeddiad yn Penuel Rhymni. Doedd gen i fawr o syniad am drefi a phentrefi Cwm Rhymni yn y dyddiau hynny! Ro'n i'n bregethwr hynod o ifanc a dim ond wedi dechrau pregethu ers nos lau, 7 Gorffennaf yn festri Tabernacl Yr Ais. Cofiaf fod tua 70 yno - dydw i ddim wedi cael 70 mewn oedfa ers sawl degawd! Roedd gen i ddwy bregeth erbyn mis Medi sef Hebreaid 13.8 a Mathew 16. 15/16, rhag ofn bod gan unrhywun ddiddordeb yn yr adnodau hyn yn y Testament Newydd.

Fel dywedais, es ar goll yn Ystrad Mynach. Yn lle troi i'r dde ar y sgwâr a dilyn yr A469, am ryw reswm es i'n syth ymlaen a glanio, ie, chi'n gwybod, yng Ngelligaer. Ac yno ar y sgwâr, aeth hi o ddrwg i waeth, oherwydd trois i'r chwith a chyrraedd Trelewis bum munud yn ddiweddarach!



Wel, i dorri'r daith yn fyr, llwyddais i gyrraedd Penuel Rhymni erbyn 10.40, ddeg munud yn hwyr. Erys llinell _____ yn fy nghofnodion am gyhoeddiadau 1977. Ystyr hynny yw na wnes i ddarllen o'r Beibl wedi'r emyn cyntaf. Cerddais mewn yn ystod yr ail emyn. Rhaid fy mod wedi mynd i'r pulpud ac arwain mewn gweddi.

Dychmygaf nad oeddwn ar fy ngorau'r bore Sul hwnnw. Rhaid fy mod braidd yn flinedig oherwydd y diwrnod cynt roeddwn wedi treulio oriau lawer yn gwylio criced yng nghae enwog Thomas Lord yn Llundain.

A doedd yr Arglwydd ddim gyda chricedwyr Morgannwg yn y gêm derfynol yn erbyn Middlesex yng nghystadleuaeth Cwpan Gillette. Colli o bum wiced. Morgannwg yn dechrau'n addawol ond yn methu sicrhau digon o rediadau. Rwyf yn dal i gofio'r ergyd am chwe rhediad anferthol gan Mike Llewellyn pan aeth y bêl goch bron hanner ffordd lan i'r Nefoedd!

Tybed a oedd rhai ohonoch chi yno a beth gofiwch chi erbyn hyn am y diwrnod yn Llundain? Es i ar y trê'n gydag Wyn Lotwick o Gaerdydd Canolog i Orsaf Paddington - oedd eraill gyda ni, dywedwch?

Yn sicr, dysgais i ychydig o wersi teithio'r bore Sul canlynol. Rhaid gadael y tŷ mewn da bryd os nad ydych yn gwybod lle yn union mae pen y daith a sut mae cyrraedd yno erbyn amser cychwyn oedfa.

Mae'n siŵr y bu hyn yn brofiad i sawl myfyriwr diwinyddol ifanc a dibrofiad yn y colegau enwadol fel fi yng Nghaerdydd, yn Abertawe, Aberystwyth, Bangor ac ati. Dydw i ddim yn cofio'n iawn erbyn hyn pa gyfarwyddiadau ar bapur oedd gyda ni i ddod o hyd i bob Seion, Bethel, Nebo, Moreia ac ati ar draws y wlad.

Ond trwy brofiad fe ddysgais mai doeth oedd holi dau gwestiwn. Yn gyntaf beth oedd enw'r stryd. Os taw'r Stryd Fawr (High St.) oedd yr ateb, yna doedd fawr o broblem fel arfer i ddarganfod y capel. Yr ail gwestiwn oedd holi beth oedd enw'r dafarn agosaf i'r capel. Fedrech chi ddim methu gyda hwn. Eithriadau oedd trigolion lleol nad oedd yn gwybod lleoliad y Llew Du neu'r Hollybush!

Tybiaf fod gan bob gweinidog, pregethwr ac ati eu hoff stori neu storiâu am ymdrech ofer i ddod o hyd i ryw gapel ar ddydd Sul.

Gaf i orffen gyda hon. Credaf fod y manylion yn eithaf cywir o beth ddigwyddodd.

Myfyriwr yng Ngholeg y Bedyddwyr, Heol Richmond, Caerdydd, rai blynyddoedd cyn fy nyddiau i yno. Bu ei dad am gyfnod yn weinidog yng Nghwm Rhymni! Roedd ganddo gyhoeddiad yn Calvary Brynmawr. Gyrrodd e yno ar fore Sul. Chwilio yn ofer am y capel, dim lwc, felly gyrrodd nôl i'r Coleg.


Yna oedfa'r hwyr. Gyrru'r holl ffordd lan unwaith eto. Ac rydych chi'n gwybod beth sy'n dod nesaf...methu ffeindio'r capel am yr ail dro. Rhaid bod hynny o leiaf 120 milltir a phedair awr o yrru – wnaeth e ddim hyd yn oed cyhoeddi'r fendith unwaith!



Tybed a oes gyda chi stori well na hon? Mae gen i un doniol am fy nhad, y Prifathro Dafydd G. Davies. Bu yntau'n fyfyrwr ym Mangor o 1941 i 1950. Cafodd e drafferth i ddod o hyd i gapel gwledig ar Ynys Môn! Dyna ni, am y tro...

Gwilym Dafydd

Merched y Wawr Cwm Rhymni – yn awr ar y sgrîn!



Wel, i fod yn deg, ar sgrîn cyfrifiadur, nid sgrîn teledu – ond mae'n rhywbeth i'w frolio, yn ein barn ni. Wedi i ni feistroli cyfrinachau WhatsApp, dan arweiniad ein Meistres Ddigidol (MDd), Gwyneth Davies, dyma hi a Bethan o'r Fenter Iaith yn agor ystafelloedd rhithwir cyfarfodydd Zoom i ni. Erbyn hyn rydym wedi cynnal cyfarfod i gytuno ar raglen y flwyddyn nesaf trwy gyfrwng Zoom, cyfarfod pwyllgor a chyfarfod cangen ar ben hynny.

Mae'r cyfan wedi profi'n hynod o hwylus – ac yn lot o hwyl hefyd! Yn ein cyfarfod diwethaf, roedd Gaynor Williams wedi paratoi cwis hynod ddifyr a heriol i ni, ac ar ben hynny, yn ystod y sgwrs wedyn, mentrodd rhai gynnig gwneud cyflwyniad i ni gan ddefnyddio lluniau o'u teithiau. Dywed Gwyneth (MDd) ei fod yn hawdd, ac addawodd roi cyfarwyddyd i ni.

Erbyn diwedd y cyfarfod, roeddem yn ddigon hyderus i drafod y posibilrwydd o gymryd rhan yng Ngŵyl Flodau flynyddol Caerffili – eto'n rhithwir. Cafodd ein gerddi lawer mwy o sylw eleni, am resymau amlwg, a nawr maent yn dangos eu gwerthfawrogiad gyda lluo o flodau heirdd. Mae dros 150 o luniau o flodau'r gangen wedi cyrraedd sgrîn Gwyneth (MDd). Fe welwch rai ohonynt yma, ond fe fydd y wledd weledol i gyd ar gael ar wefanau capeli ac eglwysi Caerffili ac ar wefan noddwyr yr Ŵyl, sef Cyngor Caerffili.

Mae cael cysylltu â'n gilydd fel hyn wedi bod yn gysur i lawer ohonom, yn enwedig o gofio i rai o'n haelodau ddioddef profedigaethau dros y misoedd diwethaf, a rhai eraill wedi gorfod dathlu penblwyddi pwysig mewn dull cyfyngedig iawn. Hyfryd yw cael cyfle i fynegi ein cyfeillgarwch a'n cefnogaeth wyneb yn wyneb – er taw wyneb dau ddimensiwn ydyw, a hwnnw ar sgrîn cyfrifiadur. Mae'r cyfeillgarwch yn ddiffuant, a'r gefnogaeth yn galondid – ac yn bwysicach o lawer na'r cyfrwng ei hun.

Efallai cawn wireddu ein cynllun o gwrdd yn yr awyr agored cyn bo hir, ond, wrth i fi ysgrifennu hyn o lith, dyw manylion cynlluniau ein Senedd heb gael eu cyhoeddi. Ond boed ar y sgrîn neu yn y cnawd – fe fydd Cangen Cwm Rhymni yn mwynhau cwmni ei gilydd!

Pandemig? Dim panig!

Penodwyd fy nhad-cu, David Jones, yn brifathro ysgol elfennol newydd y bechgyn yn Ystrad Mynach ym 1915. Daeth ef a'i deulu ifanc i fyw yn Nhŷ Clwyd yng nghanol y pentref, a dyna ble bu ef a'i wraig fyw am weddill eu hoes.

Mae'n rhaid i bob pennaeth ysgol gadw llyfr cofnodion ac anfon pob llyfr gorffenedig i archifdy'r sir. Mae llyfr ysgol 'nhad-cu bellach yn ddiogel yn Archifdy Morgannwg, ac yno yr es i er mwyn darllen peth o'i hanes yn ei lawysgrif ei hun.

Agorodd drysau'r ysgol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac yna, pan oedd arwyddion heddwch ar y gorwel, dyma ddechrau Ffliw 1918-19, y pandemig diwethaf i ysgubo trwy'r byd. Wrth gerdded trwy strydoedd tawel Ystrad Mynach heddiw, af heibio adeiladau'r ysgol, ar gau nawr ers misoedd. Roedd pethau'n wahanol iawn ganrif yn ôl. Bu'n rhaid i'r pyllau weithio, oherwydd y rhyfel ac, yn ôl tystiolaeth y llyfr, roedd bywyd yr ysgol a'r gymuned wedi parhau'n ddi-dor hefyd.

Mae 'nhad-cu yn nodi lefelau uchel o absenoldebau, megis y sylwadau hyn yn haf 1918:

"July 16: ...The attendance of Scholars is very low on account of Influenza..."

July 18: Mr Davies (Supply Teacher) has not turned up this morning. Our attendance is getting worse and this morning there are only 182 present out of 294"

Ond ar yr un diwrnod mae'n nodi *"School closed this afternoon – Sunday School Treats"*, sef partïon Ysgol Sul. Wythnos yn gynharach, cynhaliwyd *"the Church of England Treat"* ac ie, fe gaeodd yr ysgol ar gyfer hwnnw hefyd.

Cafodd 'nhad-cu y fflw ei hun. Bu'n rhaid iddo aros adre am chwe wythnos, a bu'n wael iawn yn ôl pob hanes. Ond fe wellodd, daeth yn ôl i'w swyddfa, ac i'w lyfr, gan nodi:

"Nov 18: I resume duties today. The attendance has improved slightly but is still low on account of the prevalence of Influenza".

Mae pori mewn llyfr fel hwn yn dod â'r gorffennol yn fyw iawn o'ch blaen, yn enwedig os buoch chi'n dysgu. Mae rhai pethau cyfarwydd – ystadegau presenoldeb, absenoldeb oherwydd tywydd drwg, dathliadau Eisteddfod, ymweliadau Arolygwyr Ei Fawrhydi (gan gynnwys Syr O. M. Edwards, Mawrth 31, 1916). Ond mae rhai pethau sy'n rhyfedd iawn i'n llygaid ni heddiw: byddai'r ysgol yn cau ar gyfer Cymanfaoedd Canu a chyngherddau yn ogystal â phartïon ysgolion Sul y pentref, ac unwaith, ym 1917, cafodd y disgyblion hanner diwrnod o wyliau ar gyfer *"Primitive Methodist Operetta Performance"*.

Ynghanol y 1920au ddechreuodd 'nhadcu gadw'r llyfr yn y Gymraeg, a phan ymddeolodd ym 1939, ychwanegodd nodyn personol iawn ymhlith yr ystadegau a'r ffeithiau moel:

"24ain o Chwefror: Dyma fi ar ôl deugain mlynedd fel athraw yn gorffen fy ngyrfa. Cefais lawer o hyfrydwch yn ystod y 24 mlynedd yma fel y cefais ym Mhantywaun cyn hynny. Carwn dalu teyrnged i'r athrawon bu yn cynorthwyo - ni chafodd neb gwell cydweithwyr a theimlaf yn sicr y bydd iddynt barhau yn y gwaith pwysicaf all ddod i ran unrhyw berson ac y gwnânt hynny gyda'r un brwdfrydedd a'r un dehurwydd a wnaethant gynt.

David Jones."



Dyma lun o fy nhad-cu a staff yr ysgol tua diwedd ei gyfnod yno. Ysgol Bro Allta sy'n defnyddio'r adeilad nawr – fe fyddai wrth ei fodd i wybod hynny!

Dr Elin Jones

'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'

Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons) (Aelod o Gymdeithas Ysgrifenyddwyr Ewyllysiau)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn y Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar ruthcjones25@aol.com

Clwb Darllen “Cwmni”

Nofelau Catrin o Ferain

Tua dechrau'r 80au, fe ysgrifennodd R. Cyril Hughes dair nofel am y ferch arbennig hon, ffigwr amlwg a dylanwadol iawn ymhlith uchelwyr Gogledd Cymru yn oes Elisabeth y Cyntaf, a hithau mae'n debyg yn ddisgynnydd anghyfreithlon i Harri Tudur. Mae llawer yn cofio amdani, fel y cofir am Harri'r 8fed, oherwydd ei phriodasau niferus – cafodd bedwar gŵr – ond nid yw hyn yn gwneud cyfiawnder â'r ferch brydferth a galluog sy'n sicr yn haeddu bod yn brif gymeriad cyfres o nofelau.

Fe ddarllenais y nofel gyntaf 'Catrin o Ferain' yn fuan ar ôl ei chyhoeddi. Rwy'n cofio i mi gael blas ar ddysgu llawer iawn am gyfnod y Tuduriaid ond ar adegau teimlwn fod yr awdur yn llusgo tameidiau o hanes i mewn gerfydd eu clustiau a hynny'n amharu rhywfaint ar rediad y stori. Aeth blynyddoedd maith heibio cyn i mi gael benthyg copïau o'r ddwy nofel arall (diolch Ben a Mary!), sef 'Dinas Ddihenydd' a 'Castell Cyfaddawd.'



Wrth eu darllen teimlwn fod yr awdur erbyn hyn wedi llwyr feistrolï'r grefft o ysgrifennu nofel hanesyddol, y stori yn llifo'n rhwydd ac yn gafael, a'r wybodaeth hanesyddol yn rhan naturiol o'r naratif. Yn y gyntaf o'r ddwy nofel, mae Catrin yn byw yn ninas Antwerp gyda'i hail ŵr, Rhisiart Clwch, a diddorol dros ben yw dysgu am y ddinas honno yn yr unfed ganrif ar bymtheg. Ond y nofel olaf yw fy ffefryn a Chatrin erbyn hyn yn briod â'r trydydd gŵr, sef Morys Wyn o Wydir. Cawn hanesion difyr am uchelwyr Gogledd Cymru wrth gwrs ond hefyd ceir darluniau byw o'r gweision ym mhlatai Gwydir a Lleweni ac o'r werin bobl yn yr ardal a'u dull o fyw. Gyda llaw, daw pedwerydd gŵr Catrin i'r golwg hefyd!

Cefais flas mawr ar ddarllen 'Dinas Ddihenydd' a 'Castell Cyfaddawd' yn ystod yr wythnosau diwethaf. Oes, mae llwyth o ffeithiau hanesyddol yma, ond mae'r stori yn arbennig o afaelgar a'r cymeriadau yn fyw. Byddwn yn argymhell unrhywun sydd â diddordeb yng nghyfnod y Tuduriaid i ddarllen gwaith R. Cyril Hughes.

Ann Lewis

“Os hoffech wybod....” Dic Jones

Cyfaddefais fis diwethaf fy ngwendid am ailddarllen. Hiwmor y Cilie oedd y sbardun y tro'ma. Erbyn hyn mae pori drwy'r silffoedd wedi dod i ben. Wedi cael gwledd o gymeriadau, barddoniaeth a hiwmor Ceredigion, mae'n amser symud ymlaen, am y tro ta beth. Bydda i nôl, siŵr o fod, ar yr un trywydd cyn bo hir.

Cadw'r gorau tan y diwedd, meddai pobol, a dyna ddigwyddodd. A'r llyfr 'na yw, “Os hoffech wybod....”, hunangofiant Dic Jones (Cyfres y Cewri 8, Gwasg Gwynedd). I fod yn hollol onest dyma'r bedwaredd waith i fi ei ddarllen. Bob tro rwy'n darganfod teimlad neu adwaith ychwanegol. Mae cymaint o haenau i fywyd Dic Jones, ac mae'n mynegi ei hunan yn iaith hyfryd Ceredigion. Popeth yn ei dro: plentyndod, cerddoriaeth, barddoniaeth a ffermio - i gyd yn gymysg ond yn rhan annatod o'r dyn. Er iddo ennill clod yn genedlaethol, dyw e byth yn gôr-ddweud am ei lwyddiannau.

Mae'n sôn bod rhythm y peiriant godro a rhythm bywyd y fferm yn gefndir i'w waith, a bod eisiau gwrandao ar y synau hynny er mwyn cyfansoddi, nid drwy eistedd gyda phapur a phensel. Hyd yn oed os nad yw barddoniaeth at eich dant, mae'r gyfrol hon yn cynnig cymaint o agweddau bywyd.

Roedd Roy Plumley ar “Desert Island Discs” yn gofyn pa lyfr ar ôl Shakespeare a'r Beibl fydddech chi'n ei ddewis. Does dim eisiau gofyn beth fyddai 'newis i. Os ydych am ddarllen, “Os hoffech wybod....”, peidiwch gofyn am fenthg fy nghopi i. Mae'n aros ar y silff tan y tro nesa.

Mary Jones

‘Ymdroelli Tua’r Cant’ Brian Hughes

Un o’r llyfrau a ddarllenais yn ddiweddar oedd ‘Ymdroelli Tua’r Cant’ a ddisgrifir gan Gwales fel ‘Atgofion y cerddor Brian Hughes o’r Poncie, un o brif gyfansoddwyr Cymru heddiw’.

Gwelwn wrth agor y llyfr mai Ymdroelli Tua’r Cant yng nghwmni ei gyfeillion Gareth Pritchard Hughes a Robert Wyn Roberts wna’r awdur. Dathlodd Brian Hughes ei ben-blwydd yn 80 oed yn 2018 ac fe gawn hanes y parti mawr yn y gwesty moethus ar lannau’r Fenai a’r cyngerdd arbennig yn y Stiwt, Rhosllanerchrugog i nodi’r achlysur. Yn y Rhagair awgrymir y gallai’r darllenwr prysur fynd at y rhannau sy’n apelio fwyaf ato gan nodi ambell bennod. Doedd dim rhaid i mi ddewis a dethol gwahanol rannau; fe ddarllenais i’r cyfan o’r dechrau i’r diwedd gyda mwynhad. Mae sôn am y ‘technegion lleisiol’ ac agweddau ffurfiol y byd cerddorol arbenigol, ond mae yma hefyd deimlad o gynhesrwydd ac agosatrwydd. Dyma gyfrol swmpus sy’n werth ei darllen a’i hail-ddarllen.

Marian Fairclough

CHWILAIR Coronafeirws




*Mae’r geiriau sydd yn gudd yn y chwilair isod wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar.
Pan ddewch o hyd iddyn nhw i gyd, bydd y llythrennau sy’n weddill
yn sillafu rhybudd sy’n berthnasol i bawb.*

afiechyd, argyfwng, brechlyn, bregus, calon y ddraig, coronafeirws, covid-19, cymdogion, cymorth, dwy fetr i ffwrdd, enfys, gofal, golchi dwylo, gwahardd teithio, gwasanaeth, henoed, hunan ynysu, lledaenu, mwgwd, offer, pandemig, peswch, prinder, siopa, tymheredd.

W	A	H	Th	R	O	M	Y	C	R	T	O	G	G
S	A	U	A	A	B	R	E	Ch	L	Y	N	W	I
U	S	N	R	F	S	D	W	G	W	M	A	A	A
G	W	A	G	I	Ch	W	S	E	P	H	O	S	R
E	R	N	Y	E	S	I	O	P	A	E	L	A	Dd
R	I	Y	F	Ch	D	G	E	R	N	R	Y	N	Y
B	E	N	W	Y	A	N	Dd	I	D	E	W	A	N
Ll	F	Y	Ng	D	F	T	U	N	E	Dd	D	E	O
E	A	S	R	Y	E	T	L	D	M	R	I	Th	L
D	N	U	S	I	E	A	F	E	I	C	Ch	A	A
A	O	D	Th	W	F	N	Dd	R	G	V	L	I	C
E	R	I	O	O	Ff	E	R	H	E	N	O	E	D
N	O	I	G	O	D	M	Y	C	G	E	G	C	L
U	C	Dd	R	W	Ff	I	R	T	E	F	Y	W	D

Ateb: Aros Gartref Cadw’n Ddiogel

Colofn Dafydd Islwyn



Capel y Bont, Pengam, sefydlwyd yr achos yn 1857; capel y Bedyddwyr, yn dwyn i go' nifer o bethau. Cofio'n sydyn am dri Bedyddiwr, ac mae'n siŵr i'r tri gadw oedfaon yn y capel. Y tri oedd, Iorwerth Thomas, Trelewis, Y Parchedig E. V. Wynne Jones, Y Coed Duon ac, wrth gwrs, Y Parchedig Lewis Valentine (1893-1986). Iori Thomas oedd fy mhrifathro cyntaf pan ddechreuais ddysgu yn Nhrelewis ym mis Medi 1964. Roedd aelod o deulu E. V. Wynne Jones, brodor o Gaergeiliog, Ynys Môn, yn adnabod hen ewythr i mi, brawd hynaf fy nhaid. Ar yr 28ain o Awst 1987 yng Ngholofn '50 Hanner 50' y Faner, colofn yn dwyn i go' newyddion Cymru hanner canrif ynghynt, cyhoeddwyd o'r Faner Awst 31ain 1937 - Rhyddhau'r Tri: "Ryw hanner awr wedi wyth nos Sul, Awst 29ain, cyrhaeddodd y Parch L. E. Valentine ei gartref yn Llandudno a'r ddau gyntaf i'w gyfarch oedd ei ddau blentyn, Hedd a Gwerfyl. Gwelsant ef yn dyfod at y tŷ ym modur Mr Williams Parry..... Aeth Mr Saunders Lewis a Mr D. J. Williams ym modur yr Athro J. E. Daniel i rywle'n neheudir Cymru!"

Sôn am D. J. Williams a fu'n athro am dymor yn Ysgol Lewis, Pengam, ar draws yr afon o Gapel Nant, cyhoeddwyd teyrnged iddo gan Val yn y Gyfrol "Teyrnged i D. J." a gyhoeddwyd yn 1965. Fel yr awgryma'r teitl, "Carcharor 8988: D. J. Williams" yn sôn am y naw mis a dreuliodd Tri Penberth yn Wormwood Scrubs a bu cyfeillgarwch D. J. o gymorth i Val yng ngharchar.

Tri darlun o'r deyrnged sy'n aros yn y co'. Y Parchedig Lewis Valentine, Val, yn aros yn Llandysul ac yn derbyn y llythyr oddi wrth Saunders Lewis. Roedd y llythyr yn ei hysbysu mai D. J. ac yntau oedd wedi eu dewis ganddo i'w gynorthwyo yn y cais i ddinistrio'r ysgol fomio yn Llŷn. Yr ail ddarlun yn oriau mân bore dydd Mawrth, meddai Val: "wedi tanio, cilio i Rydyclafdy lle cuddiwyd y car ac yn eistedd yno i roddi cyfle i'r tân gael gafael sicr a D. J. yn trafod stori fer o'dd ganddo ar y gweill. Wedi gweld gwawr goch yn llosgi yn yr awyr, cyraeddasom stesion yr heddlu ym Mhwlheli, a thra oedd y plismyn yn ymgynnull o bob cwr o'r wlad cawsom sgwrs felys am sonedau R. Williams Parry, a phlismon a adawyd i'n gwylio yn ymuno'n ddeallgar yn yr ymddiddan."

Y trydydd darlun ydy'r un ohonynt yn gweithio yn y carchar. Ar y dechrau hyfforddwyd hwy yn y grefft o bwytho sachau, "eu celldasg" yn yr hwyr, ac ar brynhawniau Sadwrn! Ar ôl cyfarfod â'r llywodraethwr a Bwrdd y Carchar ymhen amser, penderfynwyd ar eu swyddi. Penodwyd Saunders Lewis i wasanaethu yn yr eglwys Gatholig, D. J. i lyfrgell y carchar a Val i ystordy dillad ail law!

Ffaith ddiddorol a'm trawodd wrth ddarllen ei deyrnged i D. J. yng nghyrol Lewis Valentine: "Dyddiadur Milwr a Gweithiau Eraill", golygydd John Emyr 1988, oedd yn yr ysgrif fer, "Y Tri yn Nhyddewi". Ddydd Sul 14eg o Orffennaf 1968 roedd Val yn pregethu yng Nghrymych ac yn bwrw'r Sul gyda Mr a Mrs James Nicholas. Gwahoddwyd D. J. i dreulio'r Sul gyda hwy, meddai Val: "Dyfod i Grymych a wnaeth D. J. o Gaerffili lle bu'n cynorthwyo ymgyrch y Dr Phil Williams yn yr isetholiad yno ac yn cymryd rhan yn yr orymdaith fodurol syfrdanol honno oedd yn chwe milltir o hyd!" Crybwyll Caerffili yn dwyn i go' nos Wener 19eg o Ionawr 1990 a Dyfan Roberts yn cyflwyno ei bortread o Val - perfformiad bythgofiadwy. Does dim ond rhaid crybwyll enw Lewis Valentine ac rydw i'n clywed plant Ysgol Gymraeg Caerffili bob Gorffennaf yn canu'n wefreiddiol "Dros Gymru'n Gwlad".

Mae Gerallt wedi dal mawredd Lewis Valentine, ei enw ymhlith Cymry pwysicaf ein canrif, yn ei englyn iddo:

Penberth ei aberth ef yn ei Grist
Oedd ei groes a'i dangnef.
Roedd ei Gymru'n yn un â'i nef,
A'i weddi yn un â'i ddioddef.

Canolfan y Glowyr

Gofynwyd i rai o gefnogwyr Canolfan y Glowyr Caerffili grisialu mewn ychydig eiriau yr hyn oedd yn dod i'w meddwl wrth glywed enw'r ganolfan. Pleser aruthrol i ymddiriedolwyr y Glowyr oedd derbyn yr englyn hyfryd hwn gan ein cyfaill John Lloyd. Mae'n sicr yn werth ei rannu gyda darllenwyr Cwmni

Ei furiau'n llawn cof o'r gofal - yn grud
ac yn graig i'r ardal.
Heddiw dewch i'r tŷ'n ddi-dâl
â gwên sy'n fodd i'w gynnal.



Dewch am dro.....

Yn ystod y dyddiau anodd hyn, o leia mae ganddon ni ein hatgofion, boed rheiny am ddyddiau sy'n ymestyn ymhell yn ôl erbyn hyn yn anffodus neu ddigwyddiadau diweddar, ac i mi maen nhw i gyd yn rhyw fath o gysur.



Atgofion diweddar iawn sy gen i fan hyn a dweud y gwir. Eleni oedd y flwyddyn gyntaf erioed i mi groesawu'r flwyddyn

newydd dair gwaith o fewn tair awr. Y rheswm oedd fy mod filoedd o droedfeddi uwchben môr yr lwerydd ar fy ffordd i Dde America. Bu prysurdeb (nid o'm rhan i, rhaid cyfaddef) am fisoedd cyn i ni ymadael, yn ymchwilio, trefnu a llogi hyn a'r llall ac wrth edrych yn ôl rhaid dweud fod popeth wedi mynd fel watsh.

Felly, yn gynnar fore Dydd Calan dyma fi'n darganfod fy hun mewn gwesty ar draeth Cococabana yn Rio di



Janeiro yn mwynhau'r gwres a gwylio heidiau yn cerdded ar hyd y prom. Pob oedran a phob siâp dan haul. Cadw'n heini neu chwarae pêl-foeli ac yn gwisgo'r nesaf peth i ddim oedd y rhai mwyaf ifanc a siapus. Gorweddian yn yr haul neu nofio yn y môr oedd pawb arall.

gydag Anwen Hill

Mae'r dyddiau pan oedd y traeth yn ei ogoniant wedi hen ddiflannu ond wnes i fwynhau pob munud yno ac roedd yr olygfa o fy stafell ar y 26ain llawr o'r gwesty'n werth ei gweld. Roedd naws hapus iawn a sŵn miwsig *samba*'n atseinio ymhobman, er wrth gamu yn ôl o'r traeth roedd arwyddion mawr o dlodi.

Yn ystod y pedwar diwrnod yn y ddinas buom i fyny i weld cerflun Crist y Gwardedwr. Wrth deithio yno roedd yn



edrych yn debycach i ddarn o lego ond o gyrraedd copa'r mynydd roedd o'n anferthol. Roedd haid o bobl yno a nifer yn gorwedd ar y eu cefnau ar y llawr er mwyn cael lluniau da. Roedd yr olygfa o'r ddinas yn fendigedig. Buom hefyd i fyny'r Sugar Loaf, lle eiconig ac adnabyddus arall ond heb sylweddoli bod rhaid mynd ar ddau gar cebl i gyrraedd y brig.

Cawsom drip ar fws awyr agored i ymweld â mannau o'r ddinas gan basio sawl *favela* ar y ffordd. Pentrefi ydy'r rhain wedi eu stwffio i wagleoedd rhwng y creigiau a'r tai neu gytiau yn sefyll ar ben ei gilydd ac yn ymestyn yn uchel tuag at gopa'r mynydd. Yn ôl y sôn maen nhw'n llefydd peryglus iawn, er ei bod yn bosib crwydro rhai mannau ohonynt hefo tywysydd swyddogol. Cawsom ysbaid yn yr Eglwys Gadeiriol, Stadiwm Maracna (i'r rhai sy'n hoffi pêl-droed,) a Thraeth Ipanema. Fe gofiwch y gân enwog (a ganodd y tywysydd ar y bws), "*The Girl From Ipanema*". Wrth fynd heibio'r dociau geiriau eraill ddaeth i'r cof, sef rhai T. H. Parry- Williams, "*Y Ferch ar y Cei yn Rio*". Rhaid bod y lle'n wahanol iawn i'r hyn a welodd o ganrif yn ôl.

Buan iawn daeth y dyddiau yn Rio i ben a rhaid oedd edrych ymlaen at y cam nesaf, sef trip i weld rhaeadrau Iguazu, ryw ddwy awr o daith awyren.



Wel, y rhaeadr olaf i mi ymweld â hi oedd Aber Falls adeg 'Steddfod Ynys Môn a gallaf argymhell y daith honno. Beth bynnag, wrth gyrraedd Iguazu roedden ni mewn dosbarth gwahanol!!! Mae'r Afon Iguazu yn ffinio tair gwlad, sef Brasil, Yr Ariannin a Pharaguay.

Yr ymweliad cyntaf oedd ochr Brasil, lle dysgom bod unrhyw un sydd wedi ymddeol (neu'n edrych yn hen!) yn cael blaenoriaeth i brynu tocynnau, mynd ar y bws a phopeth arall. A dyna fu ein hanes, cael cerdded heibio'r ciwiau hir yn y gwres llethol. Weithiau mae bod ychydig yn hŷn yn handi. Rhaid oedd teithio ar fws i lawr at yr afon a cherdded ryw ddau gilometr ar hyd llwybr cul, gyda channoedd o bobl eraill, ond roedd yr olygfa ar y diwedd yn un na fyddwn yn ei hanghofio.

Yr ail ddiwrnod roedd rhaid croesi'r ffin oedd ryw ddwy filltir o ble roeddwn yn aros, i weld y rhaeadrau o ochr yr Ariannin. Yn fuan iawn daethom i ddysgu bod pawb yn hoffi biwrocratiaeth, stampio pob dogfen dan haul a chymryd eu hamser.

O'r diwedd dyma gyrraedd ar ôl bod mewn ciw am awr. Yr ochr yma roedd rhaid dal trênn bach ac wedyn cerdded am ryw hanner awr i weld "Corn Gwddw'r Diafol", a bois bach mi roedd o'n fawr, yn bwerus ac yn werth ei weld er yr oedi a'r tyrfaoedd.

Buan iawn daeth ein hymweliad â Brasil i ben a daeth yn amser i ffarwelio ond roedd llawer mwy o anturiaethau i ddod.....



Mae'n adeg anodd dod o hyd i ddeunydd, felly os oes gan unrhyw un stori, llun, pwt o newyddion neu hanes yr ardal, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych.

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Lluniau: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook:  Papur Bro Cwmni

Gwefan: MeterIaithSirCaerffili.cymru/



e-bost: Golygydd@papurcwmni.cymru benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*